## The Sector Skills Council for Lifelong Learning

### Hundreds more schools and colleges given the green light to offer diplomas

72% of secondary schools and 88% of colleges will offer Diplomas in September 2009 The vast majority of schools and colleges in England will offer Diplomas from September 2009, Schools Minister Jim Knight announced today (19th March). Around three quarters of secondary schools and 88% of colleges will teach Diplomas with the support of local universities and employers. Read more (DCSF)

### New reforms to improve the delivery of skills for adults and young people

The Government today set out the details of the transfer of £7 billion to local authorities to help colleges and sixth forms deliver the reforms needed to raise the education and training leaving age to 18. At the same time, Government will direct £4 billion a year through a new agency to provide training and skills for adults, transforming the system to be responsive and demand-led. Read more (DCSF)

### The sector responds to the closure of the LSC and reforms in skills funding.

The Machinery of Government proposals to axe the Learning and Skills Council and transfer £70 billion funding to local authorities has been given a mixed reaction. The Association of Learning Providers says local authorities need to respond flexibly to Apprenticeship demand under the new skills system. Read more (FE News)

### Innovation 'starts in education'

The key to the UK becoming a world leader in innovation is to forge closer links between industry and higher education, says the government. A White Paper outlines the government's vision for the UK to become an

## Y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Dysgu Gydol Oes

### Cannoedd mwy o ysgolion a cholegau yn cael y golau gwyrdd i gynnig diplomâu

Bydd 72% o ysgolion uwchradd ac 88% o golegau yn cynnig Diplomâu ym Medi 2009. Bydd y mwyafrif helaeth o ysgolion a cholegau yn Lloegr yn cynnig Diplomâu o Fedi 2009 ymlaen, cyhoeddodd y Gweinidog dros Ysgolion Jim Knight heddiw (19 Mawrth). Bydd rhyw dri chwarter o ysgolion uwchradd ac 88% o golegau yn dysgu Diplomâu gyda chefnogaeth prifysgolion a chyflogwyr lleol. Darllenwch ragor (DCSF)

### Diwygiadau newydd y wella cyflwyniad sgiliau ar gyfer oedolion a phobl ifanc

Rhoddodd y Llywodraeth heddiw fanylion trosglwyddo £7 biliwn i awdurdodau lleol er mwyn helpu colegau a cholegau chweched dosbarth i gyflwyno'r diwygiadau mae eu hangen i godi'r oedran ymadael ag addysg a hyfforddiant i 18. Ar yr un pryd, bydd y Llywodraeth yn cyfeirio £4 biliwn y flwyddyn drwy asiantaeth newydd i ddarparu hyfforddiant a sgiliau i oedolion, gan weddnewid y system i fod yn ymatebol ac i gael ei harwain gan y galw. Darllenwch ragor (DCSF)

### Y sector yn ymateb i gau'r LSC a diwygiadau i gyllido sgiliau

Cafwyd ymateb cymysg i gynigion Peirianwaith Llywodraeth i gael gwared ar y Cyngor Dysgu a Sgiliau a throsglwyddo £70 biliwn i'r awdurdodau lleol. Dywed y Gymdeithas Darparwyr Dysgu fod angen i awdurdodau lleol ymateb yn hyblyg i'r galw am Brentisiaethau o dan y system sgiliau newydd. Darllenwch ragor (FE News)

### Arloesi yn 'dechrau mewn addysg'

Yr allwedd i'r DU ddod yn arweinydd y byd ym maes arloesi yw meithrin cysylltiadau agosach rhwng diwydiant ac addysg uwch, meddai'r Llywodraeth. Mae Papur Gwyn yn amlinellu gweledigaeth y Llywodraeth dros y DU i ddod

"innovation nation". Read more (BBC)

yn "genedl arloesi". Darllenwch ragor (BBC)

### Higher education funding in Scotland announced

Scotland's higher education institutions are to receive funding of £1.1bn for teaching, research and capital funding for the 2008-09 academic year, the Scottish Funding Council has announced. The cash will be shared among 19 institutions, which are expected to contribute to the Government's aim of achieving economic growth by producing work-ready graduates, and increasing their transfer of knowledge from research activity. Read more (Holyrood)

### Cyhoeddi cyllido addysg uwch yn yr Alban

Bydd sefydliadau addysg uwch yn yr Alban yn derbyn cyllid o £1.1bn ar gyfer addysgu, ymchwil a chyllid cyfalaf am y flwyddyn academaidd 2008-09, mae Cyngor Cyllido'r Alban wedi cyhoeddi. Caiff yr arian ei rannu ymhlith 19 o sefydliadau, y disgwylir iddyn nhw gyfrannu at nod y Llywodraeth o gyflawni twf economaidd drwy gynhyrchu graddedigion sy'n barod am fyd gwaith, a chynyddu trosglwyddo eu gwybodaeth am weithgarwch ymchwil. Darllenwch ragor (Holyrood)

### Northern Ireland Employment and Learning Minister urges employers to "make your voice heard"

Employment and Learning Minister, Sir Reg Empey, has urged employers to make their voices heard in the development of a demand-led system of training. Speaking at the second annual Workforce Development Seminar, the Minister said that employers must play an active role in developing training which will deliver economically valuable skills where and when they are needed. Read more (DELNI)

### Gweinidog dros Gyflogaeth a Dysgu Gogledd Iwerddon yn annog cyflogwyr i "godi eich llais"

Mae'r Gweinidog dros Gyflogaeth a Dysgu, Syr Reg Empey, wedi annog cyflogwyr i godi eu lleisiau am ddatblygiad system o hyfforddiant sy'n cael ei arwain gan y galw. Gan siarad yn ail Seminar flynyddol Datblygu'r Gweithlu, dywedodd y Gweinidog fod rhaid i gyflogwyr chwarae rhan weithgar mewn datblygu hyfforddiant a fydd yn cyflwyno sgiliau sy'n werthfawr yn economaidd ble a phryd mae eu hangen. Darllenwch ragor (DELNI)

### Cardiff adult education gets good grades

Adults who return to education in the capital of Wales make good progress, but the quality of teaching and support could be better. That was the verdict of education inspectors who assessed the quality of community-based learning in Cardiff. Read more (ic Wales)

### Addysg oedolion yng Nghaerdydd yn ennill graddau da

Mae oedolion sy'n dychwelyd i addysg ym mhrifddinas Cymru yn gwneud cynnydd da, ond fe allai ansawdd y dysgu a'r gefnogaeth fod yn well. Dyna oedd casgliad arolygwyr addysg a asesodd ansawdd y dysgu seiliedig yn y gymuned yng Nghaerdydd. Darllenwch ragor (ic Wales)

## CURRENT CONSULTATIONS

| Policy Initiative & Region | Detail | Closing date |
|---|---|---|
| Raising Expectations: enabling the system to deliver (Joint DCSF/DIUS consultation) | This is a joint consultation on the transfer of planning and funding responsibilities for 16-19 year olds from the | 9th June 2008 |

## YMGYNGHORIADAU PRESENNOL

| Menter Bolisi a Rhanbarth | Manylion | Dyddiad cau |
|---|---|---|
| Raising Expectations: enabling the system to deliver (Cyd-ymgynghoriad gan DCSF/DIUS) | Cyd-ymgynghoriad yw hwn ar drosglwyddo cyfrifoldebau cynllunio a chyllido dros bobl ifanc 16-19 oed o'r Cyngor Dysgu | 9 Mehefin 2008 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Learning and Skills Council (LSC) to Local Authorities and proposals for reforming the post 19 skills landscape.<br><br>Visit the website | | | a Sgiliau (LSC) i Awdurdodau Lleol a chynigion am ddiwygio'r tirlun sgiliau ôl-19.<br>Ewch i wefan | |
| Focusing English for Speakers of Other Languages (ESOL) on Community Cohesion | It is important that we have a locally-driven approach to identifying and meeting ESOL needs to support community cohesion. We want to ensure that priority learners are able to access ESOL provision and so we need to set an overall national framework.<br>Visit the DIUS website | 4 April 2008 | Canolbwyntio Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) ar Gydlyniant Cymdeithasol | Mae'n bwysig bod gennym ymagwedd â sylfaen leol tuag at nodi a bodloni anghenion am ESOL er mwyn cefnogi cydlyniant cymdeithasol. Rydym am sicrhau bod dysgwyr sy'n flaenoriaeth yn gallu cael gafael ar ddarpariaeth ESOL ac felly mae angen sefydlu fframwaith cenedlaethol cyffredinol.<br>Ewch i wefan DIUS | 4 Ebrill 2008 |
| Framework for Intervention in FE Institutions in Wales | This consultation paper seeks views on the proposed framework for the Welsh Assembly Government's statutory intervention policy which is required under section 57A of the Further and Higher Education Act 1992 as inserted by | 11 April 2008 | Fframwaith ar gyfer Ymyrraeth mewn Sefydliadau AB yng Nghymru | Mae'r papur ymgynghori hwn yn gofyn am sylwadau ar y fframwaith arfaethedig ar gyfer polisi ymyrryd statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n ofynnol o dan adran 57A o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 fel y'i | 11 Ebrill 2008 |

| | | |
|---|---|---|
| | section 18 (5) of the Further Education and Training Act 2007. Visit the Welsh Assembly website | |
| The Role of Further Education Providers in Promoting Community Cohesion, Fostering Shared Values and Preventing Violent Extremism | This consultation seeks views on the role of Further Education (FE) providers in promoting community cohesion with a particular focus on those aspects that contribute to preventing violent extremism. Our aim is to reach agreement on what FE providers should be doing in this regard and to identify what additional support they will need in playing their part in this agenda. Visit the DCSF website. | 06 May 2008 |
| Informal Adult Learning - Shaping The Way Ahead | We want to ensure that we have the best possible arrangements for securing vibrant and fulfilling informal adult learning for the 21st | 15 May 2008 |

| | | |
|---|---|---|
| | mewnosodwyd gan adran 18 (5) o Ddeddf Addysg Bellach a Hyfforddiant 2007. Ewch i wefan y Cynulliad | |
| Rôl Darparwyr Addysg Bellach mewn Hyrwyddo Cydlyniant Cymdeithasol, Meithrin Gwerthoedd a Rennir ac Atal Eithafiaeth Dreisiol | Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar rôl darparwyr Addysg Bellach (AB) mewn hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol gyda ffocws arbennig ar yr agweddau hynny sy'n cyfrannu at atal eithafiaeth dreisiol. Ein nod yw dod i gytundeb ar yr hyn dylai darparwyr AB fod yn ei wneud yn hyn o beth a nodi pa gefnogaeth ychwanegol bydd ei hangen arnynt wrth chwarae eu rhan yn yr agenda hon. Ewch i wefan DCSF. | 06 Mai 2008 |
| Dysgu Anffurfiol i Oedolion – Siapio'r Ffordd Ymlaen | Rydym am sicrhau bod gennym y trefniadau gorau posibl ar gyfer sicrhau addysg anffurfiol i oedolion sy'n fywiog ac yn | 15 Mai 2008 |

| | | |
|---|---|---|
| | century. This consultation paper is designed to stimulate debate and shape future Government policy. Visit the DIUS website | |
| Leadership and management in the youth workforce | Feedback requested on discussion paper<br>The National Youth Agency in partnership with FPM Training has been commissioned to carry out research for CWDC into leadership and management development in the youth workforce. This is part of a range of research which is being undertaken by and with the full support of both CWDC and LLUK. Contact matthew.wilk@fpmonline.co.uk | TBC |

| | | |
|---|---|---|
| | foddhaus ar gfyer yr 21 ganrif. Nod y papur ymgynghori hwn yw symbylu trafodaeth a siapio polisi'r Llywodraeth yn y dyfodol. Ewch i wefan DIUS | |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth yn y gweithlu ieuenctid | Gofynnir am adborth ar bapur trafod<br>Mae'r Asiantaeth Ieuenctid Genedlaethol mewn partneriaeth ag FPM Training wedi ei chomisiynu i gynnal ymchwil ar ran CWDC i ddatblygu arweinyddiaeth a rheolaeth yn y gweithlu ieuenctid. Mae hynyn rhan o yatod o ymchwil sy'n cael ei chynnal gan a chyda chefnogaeth lawn CWDC ac LLUK fel ei gilydd. Cysylltwch â matthew.wilk@fpmonline.co.uk | I'w gadarnhau |

**For further information or to subscribe to this publication please e-mail:** chloejoyce@lluk.org

**I gael gwybodaeth bellach neu i danysgrifio i'r cyhoeddiad hwn anfonwch e-bost at:** chloejoyce@lluk.org

skills FOR BUSINESS

sgiliau AR GYFER BUSNES

**** Sylwch fod y tudalennau â hyperddolenni yn cyfeirio'n uniongyrchol at wefannau Saesneg. Cysylltwch â gwefannau unigol i gael y storïau llawn yn y Gymraeg.***